Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# ADOLYGIAD YMARFER OEDOLION ESTYNEDIG

# OEDOLYN V




## 1 Cefndir

Roedd Oedolyn V wedi bod yn derbyn gwasanaethau gofal a chymorth yn y cartref pan godwyd pryderon diogelu gan y darparwr gofal cartref, a hynny oherwydd datgeliad i weithwyr gofal bod perthynas i Oedolyn V a'u partner wedi ymosod arni'n gorfforol.

Dechreuodd yr Awdurdod Lleol ymholiadau diogelu a dechreuodd ymchwiliad troseddol. Derbyniwyd Oedolyn V i'r ysbyty lle canfuwyd ei bod hi'n dioddef o ddiffyg maeth, o dan bwysau a bod gyda hi rywfaint o gleisiau a niwed i bwysedd y croen. Serch hynny, fe wnaeth hi wrthod bwyta, yfed neu gael tiwb trwyn i'r stumog wedi'i osod.

Yn anffodus, bu farw Oedolyn V 7 diwrnod ar ôl iddi gael ei derbyn. Nodwyd mai niwmonia ac eiddilwch oherwydd statws maeth gwael oedd achos y farwolaeth.

## 2 Cyd-destun

Yn dilyn cael 2 strôc, cafodd Oedolyn V ei gadael ag anableddau sylweddol. Roedd darparu gwasanaethau gofal a chymorth gyda chymorth ychwanegol gan aelodau o'r teulu estynedig wedi galluogi iddi hi gadw ei hannibyniaeth a byw gartref ers sawl blwyddyn.

Bu newid sylweddol yn ei hamgylchiadau personol ar ôl iddi gwympo gartref. Yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty, symud i gartref gofal preswyl, a pherthynas a oedd wedi'i hymddieithrio yn dangos ei hwyneb, newidiodd ddeinameg ei pherthynas a'i chyswllt ag aelodau eraill o'r teulu a'r gwasanaethau gofal a chymorth.

Fe wnaeth y perthynas wneud ei hun yn rhan o iechyd, gofal a chymorth Oedolyn V a symudodd i mewn gyda hi ar ôl iddi gael ei rhyddhau o'r ysbyty.

## 3

**Deall yr oedolyn yng nghyd-destun ei deulu.** Nid oedd gan weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag Oedolyn V ddarlun llawn o'r cyd-destun teuluol. Mae defnyddio genogramau yn fuddiol, yn enwedig lle mae gwasanaethau cymorth neu ofal yn ymwneud ag unigolyn.

**Eiriolaeth broffesiynol.** Dylai pob unigolyn sy'n cael anhawster ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol neu wasanaethau gael mynediad at eiriolwr, a hynny er mwyn cynorthwyo'r person i fynegi ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau.

**Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC).** Pan fydd honiad o gam-drin yn cael ei dynnu'n ôl gan oedolyn sydd â galluedd, dylai gweithwyr proffesiynol fod yn effro i unrhyw risgiau o ddylanwad ar wneud penderfyniadau oherwydd presenoldeb ymddygiad gorfodol a rheolaethol, ceisio cyngor a chymryd camau priodol i liniaru unrhyw risgiau.

## 4

**Galluedd meddyliol, rheolaeth orfodol a diogelu**

Lle mae pryderon diogelu, gallai dewis gwrthod ymgysylltu â gwasanaethau olygu bod agen rheoli risg, monitro neu wneud newidiadau parhaus i gynlluniau gofal a chymorth.

**Diogelu ac Atwrneiaeth arhosol**

Gwnaed rhagdybiaethau ynghylch pwy oedd â phŵer atwrnai heb gael cadarnhad ffurfiol. Roedd yn amlwg bod lefelau gwahanol o ddealltwriaeth am atwrneiaeth arhosol a sut mae'n gweithio.

## 5 Ymarfer Effeithiol

Roedd gweithwyr proffesiynol yn parchu dewis Oedolyn V i fyw gartref, a chafodd ei hanghenion eu hasesu'n gynhwysfawr.

Cafodd asesiadau galluedd meddyliol eu cynnal yn rheolaidd.

Adroddodd staff asiantaeth gofal cartref am bryderon.

Pan godwyd datgeliad a phryderon ynghylch diogelu, bu asiantaethau'n cydweithio i sicrhau bod Oedolyn V yn cael ei diogelu a bod ei hanghenion gofal a chymorth yn parhau i gael eu diwallu.

Fe wnaeth yr heddlu gymryd camau gweithredu prydlon pan dderbyniwyd yr adroddiad Oedolyn mewn Perygl a chychwynnwyd ymchwiliad troseddol.

## 6 Datblygu Systemau ac Ymarfer

Rheolaeth orfodol, galluedd meddyliol a diogelu.
Mae oedolion sydd ag anghenion gofal a gofal cymdeithasol yn arbennig o agored i ymddygiad gorfodol a rheoli fel math o gamdriniaeth. Mae'n bwysig bod modd i ymarferwyr ei adnabod ac ymateb yn briodol iddo.

**Atwrneiaeth arhosol**

Mae atwrneiaeth arhosol yn ffordd ddiogel o gadw rheolaeth dros benderfyniadau a gaiff eu gwneud ar ran oedolyn sy'n wynebu risg. Mae'n bwysig i weithwyr proffesiynol ddeall sut mae atwrneiaeth arhosol yn gweithio a rôl Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

## 7 Datblygu Systemau ac Ymarfer

Rôl gweithwyr cymdeithasol wrth ymateb yn effeithiol i gam-drin domestig. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn deall beth yw ymateb effeithiol i gam-drin domestig. Dylai gweithwyr proffesiynol gael mynediad at hyfforddiant priodol a gaiff ei ddarparu gan asiantaethau. Mae Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol yn chwarae rhan allweddol yng nghyfarfodydd MARAC ac mae modd iddyn nhw roi cyngor ac arweiniad i weithwyr proffesiynol ar brosesau MARAC.

Mae dealltwriaeth dda ar draws asiantaethau o'r angen i rannu gwybodaeth i ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg. Mae defnyddio cofnodion electronig yn gyffredin, ac mae llawer o fanteision o'u defnyddio o ran casglu a defnyddio data personol, er dyw pob un ohonyn nhw ddim yn addas i'r diben ac mae modd iddyn nhw fod yn rhwystr i gyfathrebu effeithiol. Tynnodd yr adolygiad sylw at y ffaith bod angen cymryd camau i wella swyddogaeth a'r defnydd o systemau TGCh sydd ar waith ar hyn o bryd.